

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Santes Dwynwen

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Santes Dwynwen yn gymuned gefnogol, sy’n hyrwyddo ethos gofalgar a chadarnhaol. Mae perthnasoedd gwaith cynnes yn bodoli rhwng disgyblion a staff, sy’n meithrin awyrgylch o ddysgu da a balchder o berthyn i deulu’r ysgol. Mae’r cymorth i hybu dysgu a lles disgyblion, a gallu’r disgyblion i ddefnyddio’r gefnogaeth hon, yn nodwedd gadarn o’r ysgol. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu agweddau cadarn at eu dysgu a’u lles.

Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol, sy’n hybu’r dysgu yn synhwyrol. Mae staff yn defnyddio’r amgylchedd dysgu mewnol yn gynhyrchiol i dargedu anghenion disgyblion yn fwriadus, ac mae’r cynllunio o ran gweithgareddau i hybu dysgu’r disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw’r ddarpariaeth o ran profiadau dysgu yn yr awyr agored mor effeithiol, yn enwedig i’r disgyblion ieuengaf.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau gwrando, siarad, darllen a digidol pwrpasol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd gwerthfawr  i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig a’u rhifedd. Yn ogystal, nid yw ansawdd adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i wybod beth yw’r camau nesaf yn eu dysgu yn ddigon effeithiol.

Mae’r pennaeth yn arwain yr ysgol yn ystyrlon a gofalgar ac yn cefnogi’r staff i sicrhau bod dysgu a lles disgyblion yn flaenoriaethau cyson. Mae hyn yn ganolog i’w gweledigaeth gynhwysol. Mae’n gweithio’n ddiwyd gyda’r staff a’r llywodraethwyr i sicrhau bod yr ysgol yn gymuned ddysgu hapus sy’n hyrwyddo cyfleoedd cadarnhaol i ddisgyblion. Mae arweinwyr yn cadw mewn cysylltiad agos â chymuned ehangach yr ysgol ac yn adeiladu ar y berthynas weithredol sy'n bodoli â rhieni. Er hynny, daeth yr arolygwyr â mater yn ymwneud â diogelwch safle’r ysgol i sylw arweinwyr yn ystod yr arolygiad.

Mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol yn drwyadl gan ddefnyddio prosesau hunanwerthuso rheolaidd a chywrain. Mae gweithgareddau monitro yn arwain at flaenoriaethau gwella perthnasol, a chyfleoedd hyfforddi cynhwysfawr i staff ddatblygu eu medrau trwy ddysgu proffesiynol cytûn.

# Argymhellion

**A1** Mynd i'r afael â'r pryder am ddiogelwch safle'r ysgol a nodwyd yn ystod yr arolygiad

**A2** Cynllunio ar y cyd i wella medrau disgyblion, yn enwedig eu hysgrifennu estynedig a'u rhifedd ar draws y cwricwlwm

**A3** Sicrhau bod ansawdd adborth athrawon yn targedu'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn effeithiol

**A4** Gwella ansawdd a darpariaeth profiadau dysgu yn yr awyr agored, yn enwedig ar gyfer y disgyblion ieuengaf

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Santes Dwynwen |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ysgol Wirfoddol Yr Eglwys Yng Nghymru |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 113 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 94 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 19 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 23.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 26.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 69.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 02/04/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 17/06/2024 |
| Dyma arolygiad cyntaf Ysgol Santes Dwynwen ers uno ysgolion cynradd yr ardal yn 2019. | |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/08/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.